## Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021 Amrywiad Ffyrdd Amrywiol Rhuthun 2026

Mae Cyngor Sir Ddinbych (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1(1), 2(1) to (3), 4, 25, 32, 35,36, 45, 46,46A, 47, 49, 51, 52 and 53 a 124(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984 y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob pŵer arall sy'n ei alluogi, ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 o Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2026 a gellir ei enwi yn Orchymyn Cyngor Sir Ddinbych "(Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021 Amrywiad Ffyrdd Amrywiol Rhuthun 2026"

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

3. Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, ac nid yn dirymu, unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau a wnaed, neu sydd mewn grym fel pe baent wedi'u gwneud, dan Ddeddf 1984, neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac os oes gwaharddiad neu gyfyngiad wedi'i osod, amrywio neu'i ddirymu gan y Gorchymyn hwn sy'n gwrthdaro â gwaharddiad neu gyfyngiad a osodwyd gan Orchymyn blaenorol, yna bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn trechu.

4. Os yw llys, Llywodraeth Cymru neu'r Tribiwnlys Cosbau Traffig, yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n anorfodadwy, ni fydd y datganiad hwnnw yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

5. Amrywir Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021 (a elwir wedi hyn "y Prif Orchymyn") drwy hyn fel a ganlyn:

sir ddinbych denbighshire
Cyngor
County Council

(i) dilëir y cynlluniau a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn o'r Prif Orchymyn ac fe'u disodlir â'r cynlluniau sydd wedi'u hatodi i'r Gorchymyn hwn a'u llofnodi mewn cysylltiad ag ef, ac wedi'u rhestru yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn, a gaiff felly drwy hyn eu hychwanegu at atodlenni 1 a 2 i'r Prif Orchymyn a'u hymgorfforì ynddynt;

Seliwyd y Gorchymyn hwn a'r Atodlenni sydd ynghlwm gyda Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ddinbych.

**GWEITHREDWYD fel Gweithred drwy osod SÊL GYFFREDIN Cyngor Sir Ddinbych yng ngŵydd**

**Llofnodwr Awdurdodedig ……………………………….**

**Dyddiedig y dydd hwn o 2026**

Hon yw'r Atodlen 1 y cyfeirir ati yng "Ngorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021 Amrywiad Rhif 3 Ffyrdd Amrywiol yn Rhuthun 2026" a grybwyllwyd eisoes.

## ATODLEN 1

Dilëir y Cynlluniau Stryd â'r Rhifau Cynllun canlynol o Orchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021.

**AP107 AP108**

Hon yw'r Atodlen 2 y cyfeirir ati yng "Ngorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021 Amrywiad Rhif 3 Ffyrdd Amrywiol yn Rhuthun 2026" a grybwyllwyd eisoes.

## ATODLEN 2

Ychwanegir y Cynlluniau Stryd â'r Rhifau Cynllun canlynol a'u hymgorfforu yn atodlenni 1 a 2 Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021.

**AP107a AP108a**